**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Disgrifiad Swydd**

**Teitl swydd:** Athro/Athrawes Cyfnod Sylfaen

**Adran:** Dysgu

**Adain:** Ysgol Y Graig

**Graddfa cyflog:** Graddfa Athrawon

**<u>Safle yn y gyfundrefn</u>**

**Yn atebol i:**
Y Pennaeth

**Yn gyfrifol am:**

**Staff:** Dim
**Cyllid:** Dim
**Arall:** Dim

**Pwrpas y swydd:**
Addysgu Cyfnod Sylfaen

*Cynhwysir cyfrifoldebau a dyletswyddau proffesiynol Athrawon yn Adran 12 Dogfen Tâl ac Amodau Cyflogaeth flynyddol Athrawon Ysgol.*

**Tasgau Allweddol/Prif Gyfrifoldebau:**

- Ym mhob achos gyda golwg ar y cwricwlwm ar gyfer yr ysgol, ac er mwyn hybu datblygu galluoedd a doniau'r disgyblion mewn unrhyw ddosbarth neu grŵp a bennir.
- Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi.
- Addysgu, yn ôl eu hanghenion addysgol, y disgyblion a bennir, yn cynnwys gosod a marcio gwaith i'w weithredu gan y disgybl yn yr ysgol ac mewn lleoedd eraill.
- Asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.
- Hybu cynnydd cyffredinol a lles disgyblion unigol ac unrhyw ddosbarth neu grŵp o ddisgyblion a bennir.
- Darparu arweiniad a chyngor i ddisgyblion ar faterion addysgol a chymdeithasol ac ar eu haddysg bellach a'u gyrfaoedd pellach, yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau o gyngor mwy arbenigol ar gwestiynau penodol; gwneud cofnodioon ac adroddiadau perthnasol; gwneud cofnodion o anghenion personol a chymdeithasol y disgyblion ac adroddiadau arnynt
- Cyfathrebu ac ymgynghori gyda rhieni disgyblion.

- Cyfathrebu a chydweithredu gydag unigolion neu gyrff y tu allan i'r ysgol; a chymryd rhan mewn cyfarfodydd sydd wedi eu trefnu ar gyfer unrhywrai o'r pwrpasau a ddisgrifir uchod.

- Darparu asesiadau, adroddiadau a chyfeiriadau llafar ac ysgrifenedig, perthynol i ddisgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion neu gyfrannu tuag atynt.

- Cynghori a chydweithredu gyda'r pennaeth ac athrawon eraill (neu unrhywun neu fwy ohonynt) ar baratoi a datblygu cyrsiau astudiaeth, defnyddiau addysgu, rhaglenni addysgu, dulliau addysgu ac asesu a threfniant bugeiliol.

- Cynnal trefn a disgyblaeth dda ymhlith y disgyblion a diogelu eu hiechyd a'u diogelwch pan awdurdodir hwy i fod ar dir yr ysgol a phan fyddant wedi ymrwymo mewn gweithgareddau ysgol awdurdodedig yn rhywle arall.

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd yn yr ysgol perthynol i'r cwricwlwm ar gyfer yr ysgol neu weinyddu neu drefniadaeth yr ysgol, yn cynnwys trefniadau bugeiliol.

- Cymryd rhan mewn trefniadau i baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau allanol, asesu disgyblion at bwrpasau arholiadau o'r fath a chofnodi a rhoi adroddiad o asesiadau o'r fath; a chymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflwyno disgyblion ar gyfer arholiadau o'r fath, ac arwain yr arholiadau.

- Cymryd rhan mewn tasgau gweinyddol a threfnyddiaethol perthynol i ddyletswyddau o'r math ag a ddisgrifir uchod, yn cynnwys cyfeirio neu oruchwylio rhai sy'n darparu cefnogaeth i'r athrawon yn yr ysgol; a mynychu cynulliadau, cofrestru presenoldeb disgyblion a goruchwylio disgyblion, boed y dyletswyddau hyn i'w perfformio cyn, yn ystod neu ar ôl sesiynau ysgol.

- I gydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n eu gosod ar bob gweithiwr, yn cyd-fynd â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd i'w cadw'n ddiogel ac iach.

**Trefniadau Gwaith**

**Yr wythnos waith:** Llawn amser (Gweler Dogfen *Telerau ac Amodau* Athrawon Ysgol)

**Lleoliad:** Ysgol Y Graig

**Gofynion Dwyieithrwydd (Cymraeg a Saesneg):**
HANFODOL

**Hyblygrwydd:**
Noder bod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd i'w dadansoddi'n fanwl a gall newid o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y cyfrifoldebau neu lefel y cyfrifoldebau.

**Adolygiad**:
Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd hwn ym Ebrill 2022 ac adolygir ef fel bo'n angenrheidiol.

## Manyleb Person

**Teitl y Swydd:** Athro/Athrawes Cyfnod Sylfaen

**Dyddiad:** Ebrill 2022

**<u>Adran 1: Addysg a Hyfforddiant</u>**

Lleiafswm yr addysg, y cymwysterau a'r/neu'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer perfformiad effeithiol.

**Hanfodol:**

Cymhwyster lefel gradd
Cymhwyster Addysgu Proffesiynol (e.e. TAR)

**Dymunol**:

**<u>Adran 2: Profiad</u>**

Ystod a lefel profiad o'r dyletswyddau, y tasgau a'r cyfrifoldebau sydd yn y disgrifiad swydd a gweithgareddau perthynol perthnasol.

**Hanfodol:**

Profiad o ddysgu o fewn Cyfnod Sylfaen

**Dymunol**:

**<u>Adran 3: Nodweddion Allweddol</u>**

Gwybodaeth a sgiliau hanfodol swydd-benodol ar gyfer perfformio'n effeithiol yn y swydd.

**Hanfodol:**

Gwybodaeth gyfredol o'r cwricwlwm
Sgiliau Technoleg Gwybodaeth cyfredol
Sgiliau cyfathrebu arbennig, llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg

**Dymunol**:

**<u>Adran 4: Rhinweddau personol</u>**

Gwerthoedd a nodweddion personol y dylid eu harddangos.

**Hanfodol:**

**Dymunol**:

Byddai parodrwydd i chwarae rhan ym mhob agwedd o weithgareddau'r ysgol yn fanteisiol.

**<u>Adran 5: Amgylchiadau personol</u>**

Gofynion, pe na chyfarfyddid â hwy, a allai osod cyfyngiadau ar berfformiad effeithiol: D/P